**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Pwyllgor Gweithdrefnau
Tŷ'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0AA
proccom@parliament.uk

Ein cyf: EJ/HoC

04 Ionawr 2021

Annwyl Gadeirydd,

**Galwad am Dystiolaeth: gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin a'r cyfansoddiad tiriogaethol**

Rwy'n ysgrifennu yn rhinwedd fy rôl fel Llywydd Senedd Cymru – a elwir yn gyffredin y Senedd – mewn ymateb i wahoddiad y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y ffyrdd y mae gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin yn ymgysylltu â chyfansoddiad tiriogaethol y Deyrnas Unedig.

Rwyf wedi canolbwyntio ar eich ceisiadau am dystiolaeth ar y canlynol:

- Y gweithdrefnau o ran hysbysu'r Tŷ am benderfyniadau'r deddfwrfeydd datganoledig sy'n berthnasol i faterion sy'n cael eu hystyried yn y Tŷ, gan gynnwys penderfyniadau ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol.
- Y camau gweithdrefnol sy'n ofynnol eu cael er mwyn hwyluso mwy o gydweithio rhwng pwyllgorau pob un o ddeddfwrfeydd datganoledig y DU, a phwyllgorau'r Tŷ, at ddibenion sy'n cynnwys cynnal gwaith craffu ar y cyd ynghylch gweithio rhynglywodraethol ar feysydd polisi o ddiddordeb cyffredin, a chynnal gwaith craffu effeithiol ar fframweithiau cyffredin.

Hysbysiad o benderfyniadau deddfwrfeydd datganoledig

Mae swyddogion ein priod Seneddau yn gweithredu ar sail cyd-ddealltwriaeth o'r trefniadau ar gyfer hysbysu Senedd y DU o benderfyniadau cydsyniad deddfwriaethol. Yn dilyn penderfyniad gan y Senedd o ran a ddylid cytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol neu beidio, bydd Clerc y Senedd yn anfon gohebiaeth yn nodi penderfyniad y Senedd i'w chymheiriaid yn Senedd y DU, ynghyd ag unrhyw femoranda cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i law. Cyhoeddir llythyrau a memoranda o'r fath ar dudalen berthnasol y Bil ar wefan Senedd y DU, a gellir eu 'tagio' hefyd ar y Papur Gorchymyn yn Nhŷ'r Cyffredin.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

Mae gwybodaeth am yr holl benderfyniadau cydsyniad deddfwriaethol, felly, ar gael ar wefan Senedd y DU, gan gynnwys unrhyw benderfyniad gan ddeddfwrfa lle nad oes cydsyniad wedi'i roi.

Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried rhinweddau cyflwyno gweithdrefn i gydnabod yn ffurfiol a yw deddfwrfeydd datganoledig wedi cydsynio i Senedd y DU ddeddfu ar faterion datganoledig.

Fel y byddwch yn ymwybod yn sgil gohebiaeth flaenorol, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – sef un o bwyllgorau'r Senedd – wrthi'n ystyried sut y gellid diwygio'r broses o weithredu Confensiwn Sewel.[1] Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, a allai arwain at argymhellion penodol yn hyn o beth.

At hynny, fe awgrymodd Pwyllgor Gweithdrefn a Breintiau Tŷ'r Arglwyddi – mewn adroddiad a gyhoeddwyd ar 13 Hydref 2020 ac y cytunwyd arno gan Dŷ'r Arglwyddi ar 20 Hydref 2020 – fel a ganlyn:

> "*when legislative consent has been refused, or not yet granted by the time of third reading, a minister should orally draw it to the attention of the House before third reading commences. In doing this the Minister should set out the efforts that were made to secure consent and the reasons for the disagreement.*"[2]

Byddai gweithdrefn o'r fath – yn enwedig os caiff ei mabwysiadu gan ddau Dŷ Senedd y DU – yn cynnig mwy o dryloywder o ran a yw'r Senedd wedi rhoi cydsyniad deddfwriaethol ai peidio, a sut mae Gweinidogion y DU wedi ystyried penderfyniadau o'r fath. Gallai fynd yn eithaf pell tuag at sicrhau bod barn y deddfwrfeydd datganoledig yn cael eu parchu trwy gydol y broses ddeddfwriaethol. Dylai gweithdrefn o'r fath fod yn berthnasol i'r holl benderfyniadau cydsyniad deddfwriaethol a wneir gan y Senedd, gan gynnwys Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, Cynigion Cydsyniad Offeryn Statudol, a Chynigion Penderfyniad Cydsynio (mae manylion pellach am yr amgylchiadau pan fydd cynigion o'r fath yn digwydd wedi'u nodi mewn atodiad i'r ohebiaeth hon).

<u>Y camau gweithdrefnol sy'n ofynnol i hwyluso mwy o gydweithio rhwng pwyllgorau pob un o ddeddfwrfeydd datganoledig y DU a phwyllgorau'r Tŷ</u>

Gall cynnal gwaith craffu rhyng-seneddol fod yn offeryn effeithiol wrth ddwyn llywodraethau i gyfrif, ac rwy'n croesawu diddordeb y Pwyllgor mewn archwilio'r camau gweithdrefnol ar gyfer hwyluso mwy o weithio ar y cyd yn well.

At hynny, mae yna ystod eang o fecanweithiau sy'n galluogi ein seneddau i weithio ar y cyd. Gall pwyllgorau gydweithio trwy ohebiaeth, rhannu adroddiadau, cynnal deialog rhwng eu swyddogion, rhannu arferion da, cyfarfodydd anffurfiol ac ati. Mae swyddogion

---

[1] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Senedd), Ymchwiliad i weithdrefn Tŷ'r Cyffredin a'r cyfansoddiad tiriogaethol, 1 Hydref 2020.

[2] Tŷ'r Arglwyddi, Gweithdrefn a Breintiau, 4ydd Adroddiad Sesiwn 2019–21 https://publications.parliament.uk/pa/ld5801/ldselect/ldproced/140/140.pdf, paragraff 43.

sy'n cefnogi pwyllgorau'r DU a seneddau datganoledig eisoes yn cydweithio’n anffurfiol i rannu gwybodaeth, er mwyn cefnogi gwaith craffu gan bwyllgorau ar Fframweithiau Cyffredin, a gwaith arall sy'n gysylltiedig â Brexit. Mae hon wedi bod yn enghraifft gadarnhaol o weithio rhyng-seneddol ar lefel swyddogol, a gallai fod yn fodel ar gyfer ymgysylltu rhyng-seneddol mewn meysydd eraill, yn enwedig mewn perthynas â deddfwriaeth. Er enghraifft, gallai deialog barhaus, ragweithiol ynghylch deddfwriaeth – gan gynnwys diwygiadau – hwyluso swyddogion y Senedd i gynllunio a gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i Aelodau'r Senedd ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol yn ogystal â dylanwadu ar yr ystyriaeth o'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn San Steffan. .

Cynigiodd y Fforwm Rhyng-seneddol ar Brexit – a ohiriwyd oherwydd y pandemig COVID-19 – fodel ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae swyddogion sy'n cefnogi gwaith y fforwm wedi parhau i gwrdd yn absenoldeb ymgysylltiad ffurfiol ar lefel Aelod. Mae aelodau o Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd, ac aelodau’r Pwyllgor Cyfiawnder, Deddfwriaeth a'r Cyfansoddiad, wedi mynegi awydd cryf i barhau i weithio gyda chydweithwyr mewn deddfwrfeydd eraill ar faterion sy'n ymwneud â Brexit ac yn benodol, ar faterion sy'n ymwneud â dyfodol cysylltiadau rhynglywodraethol, a chyfansoddiad y DU yn y dyfodol. Yn unol â hynny, mae pwyllgorau'r Senedd yn parhau i fynd ar drywydd cysylltiadau dwyochrog.

*Cyfarfodydd sy’n cydredeg*

Mae un cam gweithdrefnol y bydd y Pwyllgor, efallai, am ei ystyried yn ymwneud â chyfarfodydd sy’n cydredeg. Ar hyn o bryd mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn darparu y gall ei phwyllgorau “gydredeg ag unrhyw bwyllgor neu gyd-bwyllgor o unrhyw ddeddfwrfa yn y DU.”[3] Yn ôl Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin, gall y Pwyllgor Materion Cymreig wahodd aelodau unrhyw bwyllgor penodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (*sic*)[4] i fod yn bresennol yn ei drafodion a chymryd rhan ynddyn nhw (ond i beidio â phleidleisio). [5]

Mae'r darpariaethau hyn wedi galluogi Pwyllgorau'r Senedd i gydredeg â’r Pwyllgor Materion Cymreig, gan gynnwys Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd yn cydredeg â’r Pwyllgor Materion Cymreig yn 2015 i gynnal gwaith craffu ar Fil Cymru drafft. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig at Lefarydd Tŷ’r Cyffredin yn gofyn am newid ei Reolau Sefydlog, er mwyn caniatáu i holl bwyllgorau Tŷ’r Cyffredin gydredeg â phwyllgorau deddfwrfeydd eraill y DU. Roedd hyn yn adlewyrchu mai nad y Pwyllgor Materion Cymreig yw'r unig bwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin y

---

[3] Y Senedd, Rheolau Sefydlog, 17.53
[4] Ym mis Mai 2020, newidiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei enw yn ffurfiol i Senedd Cymru, a elwir yn gyffredin y Senedd.
[5] Tŷ’r Cyffredin, Rheolau Sefydlog ar gyfer Busnes Cyhoeddus, 5 Tachwedd 2019, 137A(3)

mae ei waith yn gorgyffwrdd â gwaith pwyllgorau'r Senedd.[6] Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae rheol sefydlog 137A (1b) Tŷ'r Cyffredin wedi'i gyfyngu i ddarparu fel a ganlyn:

> "*Any select committee or sub-committee with power to send for persons, papers and records shall have power— to meet concurrently with any committee or sub-committee of either House of Parliament for the purpose of deliberating or taking evidence.*"[7]

Er mwyn hwyluso cydweithio ar draws ystod o feysydd polisi a deddfwriaethol, efallai y bydd y Pwyllgor am argymell y dylid ehangu'r Rheol Sefydlog hon i alluogi cyfarfodydd yr holl bwyllgorau neu is-bwyllgorau dethol i gydredeg â phwyllgorau deddfwrfeydd eraill y DU.

*Cytundebau rhyngwladol*

Ar hyn o bryd nid yw'r prosesau sydd ohonynt at ddibenion cynnal gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol, a'u cadarnhau – yn enwedig cytundebau masnach ryngwladol – yn caniatáu ar gyfer ystyried barn y deddfwrfeydd datganoledig yn ffurfiol mewn meysydd a fyddai'n cael effaith sylweddol ar feysydd cymhwysedd datganoledig, er enghraifft iechyd ac amaethyddiaeth.

Mae Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd – wrth gyflwyno ymateb i Is-bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi – wedi tynnu sylw at yr angen am broses ddiwygiedig o gynnal gwaith craffu Seneddol y DU ar gytundebau rhyngwladol, i ymgorffori'r canlynol:

> "*the need to consider the views of the Senedd before the conclusion of its scrutiny process.*"[8]

Cytunodd yr Is-bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi â'r asesiad hwn, gan nodi fel a ganlyn:

> "*it is vital that Westminster committees engage closely with the Welsh and Scottish Parliaments and the Northern Ireland Assembly in scrutinising the negotiation and agreement of future treaties.*"[9]

---

[6] Er enghraifft, mae ymgysylltu â fframweithiau yn debygol o fod yn fwy buddiol rhwng pwyllgorau sydd â chylchoedd gwaith polisi cyfatebol, yn hytrach na gyda phwyllgorau tiriogaethol Tŷ'r Cyffredin.
[7] Tŷ'r Cyffredin, Rheolau Sefydlog ar gyfer Busnes Cyhoeddus, 5 Tachwedd 2019, 137A(1b)
[8] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd, tystiolaeth ysgrifenedig i Is-bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, Mehefin 2020
[9] Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, Craffu ar Gytundebau: arfer gweithio, 10 Gorffennaf 2020, https://publications.parliament.uk/pa/ld5801/ldselect/ldeucom/97/97.pdf, Paragraff 52.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried sut y gellid diwygio gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r trefniadau gweithio ar y cyd rhwng y deddfwrfeydd datganoledig a Thŷ'r Cyffredin i annog ymgynghori ffurfiol â'r seneddau datganoledig mewn prosesau cadarnhau, a chynnal gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol.

Fe fyddwn innau, neu fy swyddogion, yn hapus i archwilio’r materion hyn ymhellach gyda’r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Elin Jones AS**
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English